



**WWF-UK**  
Registered office  
The Living Planet Centre  
Rufford House, Brewery Road  
Woking, Surrey GU21 4LL

Tel: +44 (0)1483 426444  
info@wwf.org.uk  
wwf.org.uk

## Telerau ac amodau Gwobrau Llysgenhadon Gwyrdd 2017

1. Yn 2017, mae 3 chategori i'r Gwobrau Llysgenhadon Gwyrdd; Gwobr Ysgolion, Gwobr Athro a Gwobr Tîm Gwyrdd.
2. Er mwyn cyflwyno enwebiad ar gyfer y Gwobrau Llysgenhadon Gwyrdd mae'n rhaid ichi fod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ac yn 18 oed neu'n hŷn, a bod yn gweithio i neu wedi'ch cyflogi'n uniongyrchol gan ysgol gynradd yn y Deyrnas Unedig (y "Cystadleuydd"). Bydd ar bob Cystadleuydd angen caniatâd y Pennaeth er mwyn enwebu'r ysgol am un o'r gwobrau. Caiff cystadleuwyr enwebu eu hysgol gynradd yn y Deyrnas Unedig am y Wobr Ysgolion, unrhyw athro ysgol gynradd yn y Deyrnas Unedig am y Wobr Athro, neu unrhyw grŵp o ddisgyblion ysgol gynradd sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn ysgol gynradd yn y Deyrnas Unedig am y Wobr Tîm Gwyrdd. Rhaid i'r holl enwebiadau gael eu gwneud gyda chydysyniad pennaeth yr ysgol i'r enwebiad fod yn ddilys.
3. Ni chaniateir i unrhyw gyflogeion i WWF-UK neu Loteri Cod Post y Bobl, eu perthnasau agosaf na neb sydd â chysylltiad proffesiynol â'r hyrwyddiad ymgynnig yn y gystadleuaeth.
4. I ymgynnig, dylai'r Cystadleuydd lenwi ffurflen gais ar-lein Gwobrau Llysgenhadon Gwyrdd 2017 ([wwf.org.uk/gaawards17](http://wwf.org.uk/gaawards17)) neu pdf o'r ffurflen gais a'i hanfon trwy e-bost at [greenambassadors@wwf.org.uk](mailto:greenambassadors@wwf.org.uk) neu ei hanfon trwy'r post at Liz Rossall, Schools and Youth Team, WWF-UK, The Living Planet Centre, Rufford House, Brewery Road, Woking, Surrey, GU21 4LL. Ni chaiff cynnig o unrhyw fath arall ei dderbyn.
5. Rhaid i gynigion gael eu cyflwyno ar y ffurflen gais a gyflenwir ond gellir darparu deunydd ategol. Mae'n ddrwg gennym na allwn ddychwelyd unrhyw ddeunydd a anfonir atom.
6. Ni dderbynnir cyfrifoldeb am gynigion sy'n mynd ar goll neu'n cael eu difrodi neu eu dal yn ôl yn y post nac am unrhyw fethiant o'r wefan.
7. Yr amser cau i bob cynnig ddod i law yw 5pm ar ddydd Iau 20 Ebrill 2017. Ni fydd unrhyw gynigion a ddaw i law ar ôl yr amser cau hwn yn cael eu hystyried.
8. Dim ond cynigion sy'n gyflawn, yn ddarllenadwy ac yn cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau ar ymgynnig fydd yn cael eu derbyn.



President: His Royal Highness,  
The Prince of Wales KG, KT, GCB, OM  
Chief Executive: Tanya Steele

WWF-UK a charity registered in England and Wales number 1081247 and in  
Scotland number SC039593, a company limited by guarantee registered in  
England number 4016725. VAT number 733 761821  
100% recycled paper

9. Rhaid i'r cynnig fod yn waith y cystadleuydd neu'r ysgol ei hun a heb ei gopïo o unrhyw ffynhonnell.
10. Rhoddir gwybod i'r enillwyr a'r rhai ddaeth yn ail erbyn 1 Mehefin 2017. Os na all WWF-UK gysylltu â'r enillydd neu'r rhai ddaeth yn ail ar ôl ymgeisiau rhesymol i wneud hynny gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddwyd yn y cynnig, mae'n cadw'r hawl i ddewis rhai eraill fel enillwyr neu rai yn yr ail le yn ôl yr angen.
11. Caiff enwau'r enillwyr eu cyhoeddi ar wefan Llysgenhadon Gwyrdd WWF-UK erbyn 31 Gorffennaf 2017: [wwf.org.uk/gaawards17](http://wwf.org.uk/gaawards17)

## GWOBRAU YSGOLION

12. Rhaid i Bennaeth yr ysgol sy'n cael ei henwebu gadarnhau'r enwebiad fel rhan o'r broses ymgeisio.
13. Trwy dderbyn yr enwebiad, mae Pennaeth yr ysgol yn cytuno i'r telerau ac amodau hyn ac yn derbyn cael ei rwymo ganddynt, ac yn cadarnhau, pe bai'r ysgol yn cael ei dewis yn enillydd neu'n dod yn ail, fod yr ysgol yn cytuno i'r canlynol:
  - Croesawu staff o WWF a Loteri Cod Post y Bobl ar ymweliad am ddiwrnod i gyflwyno'r wobwr ar ddyddiad sy'n addas i'r ysgol a WWF a Loteri Cod Post y Bobl.
  - I ffotograffydd a chriw ffilmio fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad er mwyn tynnu lluniau/ffilm i'w defnyddio mewn gwaith cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu ynghylch y cynllun Llysgenhadon Gwyrdd, gan gynnwys astudiaethau achos/storiau ar gyfer rhannu arferion da. Ni chaiff unrhyw ffotograffau, delweddau na fideos eu defnyddio heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gan rieni/gwarcheidwaid yn gyntaf. Bydd WWF-UK yn darparu ffurflen rhyddhau model er mwyn i riant/gwarcheidwad pob plentyn gydsynio i ddefnyddio ffotograffau a ffilmiau at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus WWF-UK a Loteri Cod Post y Bobl mewn cysylltiad â'r gwobrau.
  - I WWF-UK a Loteri Cod Post y Bobl gael gwybodaeth o'ch cais ac o'r ymweliad cyflwyno gwobr er mwyn llunio astudiaethau achos/storiau am arferion da at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus.
  - I gymryd rhan mewn cyfweiliadau â'r wasg genedlaethol a rhanbarthol a hyrwyddo ymwneud yr ysgol â'r cynllun Llysgenhadon Gwyrdd trwy ei gwefan, cylchlythyr a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei hun (os ydynt ar gael) a chefnogi sianelau WWF-UK gan ddefnyddio @wwf\_uk #GreenAmbassadors.
  - I Loteri Cod Post y Bobl, noddwr y rhaglen Llysgenhadon Gwyrdd, gyhoeddi manylion am gynnig yr ysgol fuddugol ar ei wefan ac at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus.
  - I WWF-UK gyhoeddi gwybodaeth wedi'i seilïo ar gynigion yr ysgol fuddugol a'r ysgol ddaeth yn ail mewn deunyddiau printiedig ac ar-lein,

gan gynnwys ar ei wefan, y cyfryngau cymdeithasol a sianelau cyfryngol eraill.

14. Trwy ymgynnig yn y gystadleuaeth hon, mae Pennaeth yr ysgol yn cadarnhau bod yr ysgol yn cytuno y bydd unrhyw fanylion cyswllt a roddir yn cael eu defnyddio i weinyddu'r gystadleuaeth yn unig ac na fyddant yn cael eu cyhoeddi na'u darparu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd eglur pennaeth yr ysgol dan sylw (nodwch y bydd enwau'r enillwyr a'r rhai ddaeth yn ail yn cael eu rhannu gyda Loteri Cod Post y Bobl).
15. Bydd y panel beirniaid ar gyfer y wobr ysgol yn adolygu'r holl gynigion a ddaw i law erbyn y dyddiad cau. Bydd y panel yn chwilio am y canlynol
  - o prosiectau sy'n pwysleisio themâu'r cynllun Llysgenhadon Gwyrdd: bwyd, hybu bywyd gwyllt, ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth
  - o dull sy'n canolbwyntio ar atebion i rwystrau a heriau
  - o effaith a chanlyniadau'r prosiect
  - o rôl y plant / tîm gwyrdd
  - o i ba raddau mae'r gwaith wedi'i wreiddio yn yr ysgol
  - o cysylltiadau da â'r gymuned ehangach
  - o ymrwymiad yr ysgol i gynnal y gwaith hwn yn y tymor hir
16. Bydd y panel yn dewis hyd at bum ysgol o bob gwlad a, gyda chaniatâd yr ysgolion hynny, bydd cynrychiolwyr WWF-UK yn ymweld â hwy yn ystod mis Mai i gael gwybod mwy am waith yr ysgol a nodir ar ei ffurflen gais. Bydd y panel beirniaid yn dewis un enillydd Gwobr Ysgolion Llysgenhadon Gwyrdd 2017 ac un ysgol ddaeth yn ail o bob un o wledydd y Deyrnas Unedig o blith yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Mae WWF-UK yn cadw'r hawl i newid neu leihau nifer y gwobrau a roddir ar unrhyw adeg os na chyrhaeddir y safon ofynnol.
17. Byddwn yn cysylltu â'r pum ysgol uchaf trwy e-bost neu dros y ffôn cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad cau i drefnu'r ymweliad. Os na ellir cysylltu ag unrhyw un / rai o'r ysgolion ar ôl gwneud rhagor o ymgeisiau rhesymol, mae WWF-UK yn cadw'r hawl i ddewis ysgol arall yn unol â rheolau'r hyrwyddiad. Byddwn yn cysylltu â'r ysgol fuddugol a'r ysgol ddaeth yn ail dros y ffôn cyn pen 18 diwrnod ar ôl yr ymweliad. Rhaid i'r ysgolion hyn hawlio eu gwobr cyn pen 14 diwrnod ar ôl cael eu hysbysu. Os na ellir cysylltu â'r naill neu'r llall o'r ysgolion hyn ar ôl gwneud rhagor o ymgeisiau rhesymol, mae WWF-UK yn cadw'r hawl i ddewis ysgol fuddugol arall neu ysgol arall yn yr ail le (fel bo'n briodol) yn unol â rheolau'r hyrwyddiad.
18. Bydd un ysgol yn cael ei henwi'n Llysgennad Gwyrdd y Flwyddyn 2017 o bob un o wledydd y Deyrnas Unedig a bydd yn cael £1,000 ar ffurf sic. Bydd yr ysgol yn yr ail le o bob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn cael £500 ar ffurf sic. Bydd angen nodi, ar y ffurflen ymgynnig, fanylion y ffordd y caiff yr arian hwn ei wario. Mae'n

un o amodau'r wobr i'r arian hwn gael ei wario gan yr ysgol ar y prosiectau a nodir ar y ffurflen gais.

## GWOBR ATHRO A GWOBR TÎM GWYRDD

19. Rhaid i'r enwebiadau ar gyfer gwobrau athro a thîm gwyrdd gael caniatâd gan y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.
20. Caiff un enillydd Gwobr Athro y Flwyddyn Llysgenhadon Gwyrdd 2017 ac un yn yr ail le eu dewis o'r Deyrnas Unedig gyfan.
21. Caiff un enillydd Gwobr Tîm Gwyrdd y Flwyddyn Llysgenhadon Gwyrdd 2017 ac un yn yr ail le eu dewis o'r Deyrnas Unedig gyfan.
22. Rhaid i'r Pennaeth roi ei ganiatâd llofnodedig ar bob cais er mwyn i athrawon neu ddisgyblion tîm gwyrdd yn ei ysgol gael eu henwebu ar gyfer y gwobrau Athro neu Dîm Gwyrdd. Wrth wneud hynny mae'n cytuno i'r telerau ac amodau hyn ac yn derbyn cael ei rwymo ganddynt, ac yn cadarnhau, pe bai athro neu dîm gwyrdd yn ei ysgol yn cael ei ddewis yn enillydd neu'n dod yn ail, fod yr ysgol yn cytuno i'r canlynol:
  - Croesawu aelodau o WWF a Loteri Cod Post y Bobl ar ymweliad am ddiwrnod i gyflwyno'r wobr i'r enillydd neu'r un a ddaeth yn ail, ar ddyddiad sy'n addas i'r ysgol a WWF a Loteri Cod Post y Bobl.
  - Cael cydsyniad perthnasol i luniau disgyblion gael eu tynnu a'u defnyddio, gan ddefnyddio Ffurflen Cydsyniad WWF.
  - I ffotograffydd fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad er mwyn tynnu lluniau i'w defnyddio mewn gwaith cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfathrebu ynghylch y cynllun Llysgenhadon Gwyrdd, gan gynnwys astudiaethau achos/storiau ar gyfer rhannu arferion da. Ni chaiff unrhyw ffotograffau na delweddau eu defnyddio heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gan rieni/gwarcheidwaid yn gyntaf. Bydd WWF-UK yn darparu ffurflen rhyddhau model er mwyn i riant/gwarcheidwad pob plentyn gydsynio i ddefnyddio ffotograffau a ffilmiau at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus WWF-UK a Loteri Cod Post y Bobl mewn cysylltiad â'r gwobrau.
  - I WWF-UK a Loteri Cod Post y Bobl gael gwybodaeth o'ch cais ac o'r ymweliad cyflwyno gwobr er mwyn llunio astudiaethau achos/storiau am arferion da at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus.
  - I gymryd rhan mewn cyfweiliadau â'r wasg genedlaethol a rhanbarthol a hyrwyddo ymwneud yr ysgol â'r cynllun Llysgenhadon Gwyrdd trwy ei gwefan, cylchlythyr a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei hun (os ydynt ar gael).

- I Loteri Cod Post y Bobl, noddwr y rhaglen Llysgenhadon Gwyrdd, gyhoeddi manylion am gynnig yr ysgol fuddugol ar ei wefan ac at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus.
  - I WWF-UK gyhoeddi cynigion yr ysgol fuddugol a'r ysgol ddaeth yn ail mewn deunyddiau printiedig ac ar-lein, gan gynnwys ar ei wefan, y cyfryngau cymdeithasol a sianelau cyfryngol eraill
23. Ni fydd WWF-UK yn gyfrifol am unrhyw gynigion sy'n mynd ar goll neu'n cael eu difrodi.
24. Bydd penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni fydd WWF-UK yn gohebu nac yn cyfathrebu ynghylch y beirniadu. Mae rhestr o'r beirniaid sy'n cynnwys o leiaf un beirniad annibynnol ar gael o wneud cais.
25. Mae WWF-UK yn cadw'r hawl i ganslo'r gystadleuaeth hon heb rybudd ar unrhyw adeg os yw'n barnu bod angen gwneud yn ôl ei ddisgresiwn llwyr neu os yw digwyddiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn ei atal rhag gweinyddu'r gystadleuaeth yn briodol.
26. Mae WWF-UK yn cadw'r hawl i newid neu leihau nifer y gwobrau a roddir ar unrhyw adeg os na chyrhaeddir y safon ofynnol.
27. Bydd y telerau ac amodau hyn ac unrhyw anghydfodau sy'n codi ohonynt yn cael eu rheoli gan a'u dehongli yn unol â chyfraith Lloegr.
28. Hyrwyddwr a rheolydd data'r gystadleuaeth hon yw WWF-UK, The Living Planet Centre, Rufford House, Brewery Road, Woking, Surrey, GU21 4LL.
29. Mae'r Gwobrau'n cael eu cefnogi gan Loteri Cod Post y Bobl.
- Loteri elusennol yw Loteri Cod Post y Bobl. Mae'r chwaraewyr yn chwarae gyda'u codau post i ennill gwobrau ariannol ac ar yr un pryd yn codi arian i elusennau ac achosion da ledled Prydain Fawr a'r byd i gyd
  - Mae o leiaf 30% yn mynd i elusennau'n uniongyrchol ac mae chwaraewyr wedi codi £175.5 miliwn at achosion da ledled y wlad
  - Telir £10 pob mis ymlaen llaw am 10 tyniad ac mae gwobrau pob dydd. I gael mwy o wybodaeth am y gwobrau, ewch i: [www.postcodelottery.co.uk/prizes](http://www.postcodelottery.co.uk/prizes)
  - Y swm mwyaf y gall un tocyn ei ennill yw 10% o refeniw'r loteri hyd at fwyafswm o £400,000
  - Gall chwaraewyr gofrestru trwy ddebyd uniongyrchol, cerdyn credyd neu PayPal ar lein ar [www.postcodelottery.co.uk](http://www.postcodelottery.co.uk), neu drwy ffonio 0808 10-9-8-7-6-5
  - Mae Postcode Lottery Limited yn cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Hapchwarae o dan drwyddedau rhif: 000-000829-N-102511-012 a rhif: 000-000829-R-102513-011. Swyddfa gofrestrdig: Titchfield House, 69/85 Tabernacle Street, London, EC2A 4RR
  - Mae Loteri Cod Post y Bobl yn rheoli nifer o loteriau cymdeithasau sy'n cael eu hyrwyddo gan wahanol elusennau. I gael manylion loteri pa gymdeithas sy'n rhedeg pob wythnos, ewch i [www.postcodelottery.co.uk/society](http://www.postcodelottery.co.uk/society)